O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1397 (Cy.167)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Gelligemlyn, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed 31 Mai 2011

Yn dod i rym 7 Mehefin 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Glanconwy (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mehefin 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Gelligemlyn, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 7 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr y darn o'r gefnffordd ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A470, yng Ngelligemlyn yn Sir Gwynedd, sy'n ymestyn o bwynt 100 metr i'r de o dapr deheuol y gilfan gyntaf ar y lôn ogleddol ar ôl Llanelltyd hyd at bwynt 15 metr i'r de o gornel dde-orllewinol yr eiddo a elwir Bryn Cemlyn.